**Gwynedd Effeithlon:** **Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

| Adran a Prosiect | Trosolwg | Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir): | Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau | Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb) |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllid – Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol** | Mae'r Cyngor eisoes wedi torri ei gyllidebau er mwyn arbed dros £43m ers 2015/16, ond yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, nid yw'r arian bydd y Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i ymdopi â chwyddiant a phwysau gwario newydd. Rydym yn wynebu toriadau ariannol sylweddol dros oes y cynllun yma.<br><br>Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i leihau'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan dderbyn na fydd modd gosod cyllideb hafal heb gyfres faith o arbedion/toriadau a chynyddu'r dreth Cyngor. yn uwch nag a fyddem yn ei ddymuno. | 1.Monitro fod yr arbedion a thoriadau gwerth £3,463,390 ar gyfer 2025/26, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 06/03/2025, ynghyd ag unrhyw arbedion sydd eto ar ôl i'w gwireddu o flynyddoedd blaenorol yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol Atodiad 3 - Arbedion a Thoriadau<br><br>2. Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.<br><br>3. Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion a thoriadau y Cyngor ac i ystyried y cynlluniau sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu.<br><br>4. Adrodd i Gabinet 14 Hydref 2025 a 20 Ionawr 2026 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion | 1.Ydi<br><br>2. Ydi<br><br>3. Ydi<br><br>4. Ydi | 1. Arbedion gwerth £46.5 miliwn wedi'u cyflawni ers 2015/16. Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Ionawr 2026 ac i'r Cabinet ar 20 Ionawr 2026.<br><br>2. Yn ystod y flwyddyn, cafodd perfformiad ei fonitro a'i hadrodd i'r Cabinet ar 11 Tachwedd 2025 a 20 Ionawr 2026, ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026.<br><br>3. Oherwydd pwysau a galwadau eraill, ni chynhaliwyd cyfarfodydd yn hanner cyntaf y flwyddyn; fodd bynnag, cynhaliwyd cyfarfod i drafod yr arbedion ym mis Ionawr, 2026. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | a thoriadau y Cyngor.<br><br>5. Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar effeithlonrwydd a ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau. | 5. Ydi | 4. Wedi adrodd i'r cyfarfodydd yma yn unol â'r cynllun.<br><br>5. Yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae Adran Gyllid, fel rhan o waith y Bwrdd, yn darparu gwybodaeth ar yr arbedion a'r toriadau ar gyfer 2025/26. |